

## GWAITH YR YSBRYD.

**Emyn:** 600 ‘Distewch, cans mae presenoldeb Crist.’

**Darlleniad:** Effesiad 1:15-21.

**Gweddi:** *O Dad Nefol, â'r feirws dal yn ein plith a bywyd mor ansicr, diolch nad wyt wedi ein gadael ar ein pennau ein hunain ond bod nerth dy Ysbryd ar gael i'n goleuo a'n calonogi. Diolch am yr Ysbryd Glân sydd yn eiriolwr ac yn ddiddanydd, yn gymorth parod a chysurwr.* Amen.

**NEGES:** Beth mae Paul yn gweddio amdano? ‘*A'm gweddi yw, ar i Dduw ... roi i chwi ...yr Ysbryd sy'n rhoi doethineb a datguddiad. Bydded iddo oleuo llygaid eich deall.*’

**1) Goleuo:** Mae Paul yn galw ar Ysbryd Duw i oleuo deall dyn er mwyn iddo adnabod Duw. Mae dyn naturiol yn rhy ffôl i wneud hyn o ran yr hunan. Mae Ysbryd Duw yn gweithredu trwy Air Duw i ‘oleuo llygaid ein calon,’ y dyn mewnol, yr enaid. Mae'r galon naturiol yn ddideall ac mewn tywyllwch; tarddiad pob drygioni ydyw! *Mathew 15:19.* Ond efengyl Crist yn nerth yr Ysbryd all oleuo calon dyn i weld bryntni yr hunan a'r angen am Waredwr. Mae angen calon lân, a dyma mae Crist Goleuni'r Byd yn ei gynnig i bawb sy'n credu ynddo Ef.

**2. Gobaith:** ‘*Bydded iddo oleuo llygaid eich deall, a'ch dwyn i wybod beth yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn ei alwad,*’ 18. Mae'r Ysbryd yn galw pobl at lesu, i wybod am obaith Duw. Nid ‘*wishful thinking*’ yw gobaith Duw ond rhywbeth sicr! Gobaith am atgyfodiad y sawl sy'n iawn gyda Duw ydyw, gobaith am ryddhad o farn Duw, gobaith am y nef! Mae galwad yr Ysbryd i blant Duw, i rai sy'n mynd i brofi o etifeddiaeth gogoneddus yn y nef. ‘*Yr Ysbryd hwn yw'r ernes o'n hetifeddiaeth, nes ein prynu'n rhydd i'w meddiannu'n llawn, er clod i ogoniant Duw,*’ 14. Mae'r Ysbryd yn ‘guarantee’ o'r hyn sydd i ddod; i bob credadun blaendal ‘deposit’ ydyw o rywbeth gwell i ddod! **Beth yw'r bywyd gwell yma?** Bywyd gyda Crist am byth, rhannu o'i ogoniant, rhydd o boen a phechod y byd hwn!

**3. Gallu:** Mae'r Ysbryd yn goleuo calon dyn i ‘aruthrol fawredd **gallu**’ Duw. Mae'r grym a gododd Crist ‘oddi wrth y meirw, a'i osod i eistedd ar (ei) ddeheulaw y Tad yn y nefolion leoedd,’ ar waith yn dwyn dyn o dywyllwch i oleuni. Ni all person marw godi ei hun - mae angen pwer mwy, gallu Duw yng Nghrist lesu. ‘*Bydd ef yn gweddnewid ein corff iselwael ni ac yn ei wneud yn unffurf a'i gorff gogoneddus ef.*’ Un cyfieithiad o'r gair gallu yw ‘dynamite’, ond nid dinistrio mae ‘dynamite’ Duw. Dod a pherson nôl i'w le a wna, dod a pherson i edifeirwch a chred yn lesu Grist.

Mae'r Ysbryd yn i) Goleuo deall dyn i adnabod Duw; ii) Yn ein galw i obaith bywiol Duw; iii) Yn ein goleuo i fawredd allu Duw.

## THE WORK OF THE SPIRIT.

**Hymn:** 935 ‘Be still, for the presence of the Lord.’

**Reading:** Ephesians 1:15-21.

**Prayer:** O Heavenly Father, covid-19 is still in our midst causing great uncertainty. Yet we thank you that you have not abandoned us, and through the Holy Spirit you are encouraging and leading us. Thank you for the Holy Spirit, a comforter and mediator in our time of need. Amen.

**Message: What did Paul pray for?** ‘That God ... may give you a spirit of wisdom and of revelation in the knowledge of him,’ 17.

**1 Enlightenment:** Paul calls upon the Spirit to enlighten the ‘hearts’ of people that they may truly know God. The Holy Spirit by means of God’s Word enlightens ‘the eyes of your hearts,’ that is, the inner person, the soul. The natural heart does not understand the things of God and is in darkness, but the gospel of Jesus in the light of the Spirit reveals the sinfulness of a person’s heart and the need for a Saviour. Every person needs a new heart and this is what Jesus offers to all who believe in Him.

**2. Hope:** ‘*Having enlightened hearts, that you may what is the hope to which he has called you, what are the riches of his glorious inheritance in the saints,*’ 18.

God’s hope is not wishful thinking’ but something that is sure and certain. It is the hope of resurrection to all who know Jesus, the hope of being released from God’s judgement. It is the hope of heaven. The Spirit calls the children of God to a ‘glorious inheritance’ to come. ‘*The promised Holy Spirit is the guarantee of our inheritance until we acquire possession of it,*’ 14. The Spirit is a guarantee of that which is to come, a deposit of something better to come. What is this better life? Life with Jesus for ever, sharing in His glory, freedom from the pains and sin of this world.

**3. Power:** The Holy Spirit enlightens the heart of man ‘*to the immeasurable greatness of his (God’s) power towards*’ those who believe in Him, 19. It was this power that raised Jesus from the dead, vs.20. It is the same power that ‘*will transform our lowly body to be like his glorious body,*’ it is God’s dynamite. Not destroying a person but drawing him back to Him, bringing a person to repentance and faith in Jesus. The Spirit enlightens, it brings hope and is God’s power to change lives. Amen.